**Pwyllgor Busnes BC236-01 (terfynol)**

**COFNODION Y CYFARFOD**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 26 Mehefin 2001
**Amser:** 9 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:** John Marek, Y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, Y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Peter Black, Democrat Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, YP/Y Trefnydd
Adrian Green, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, YP/Y Dirprwy Lywydd
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4)

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod Kirsty Williams wedi ymddiheuro am na allai fod yn bresennol a bod Peter Black yn gynrychiolydd iddi yn unol â Rheol Sefydlog 13.3. Roedd Marie Knox hefyd wedi ymddiheuro am na allai fod yn bresennol.

## 2. Cofnodion cyfarfodydd blaenorol

**BC210-01 (terfynol)**

Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor yn eu ffurf derfynol. Gan na chafwyd unrhyw sylwadau, byddai'r cofnodion yn cael eu cyfieithu'n barod i'w cyhoeddi. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**BC220-01 (drafft)**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar ffurf ddrafft. Gan na chafwyd unrhyw sylwadau, byddai'r cofnodion yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf yn eu ffurf derfynol. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

## 3. Materion yn codi (BC220-01)

3.1 **Paragraff 3.1** Dywedodd y Trefnydd ei fod wedi cael trafodaeth gychwynnol â'r Prif Weinidog ynghylch y papur ar weithdrefnau cwestiynau'r Prif Weinidog. Fodd bynnag, nid oedd y Prif Weinidog eto wedi cael cyfle i ystyried y papur yn llawn a dywedodd y byddai'n adrodd yn ôl ar ôl iddo wneud hynny. **GWEITHREDU: Y Trefnydd i adrodd yn ôl.**

3.2 **Paragraff 3.2** Dywedodd y Trefnydd fod Sue Essex (Gweinidog yr Amgylchedd) wedi ysgrifennu at y rheolwyr busnes i roi gwybod iddynt y byddai camau'n cael eu cymryd i ddiddymu Rheoliadau Gwastraff Rhagnodedig (Cymru) 2001. Dywedodd y byddai'n barod i gyhoeddi yn ei Ddatganiad Busnes y prynhawn hwnnw y byddai amser yn cael ei neilltuo ddydd Iau 28 Mehefin i drafod cynnig diddymu Glyn Davies (NNDM663) os mai dyna oedd dymuniad y Rheolwyr Busnes. Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod wedi cael cyngor na fyddai'r Llywodraeth yn cydymffurfio â gofynion adran 67(3) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 pe na chaniateid amser yn y cyfarfod llawn i ystyried y cynnig ac y gallai hynny beri adolygiad barnwrol.
**GWEITHREDU: Y Trefnydd**

3.3 Pwysleisiodd Jocelyn Davies fod angen proses eglur i ymdrin â chynigion diddymu er mwyn sicrhau bod pob Aelod yn deall y weithdrefn. Ar ôl i gynnig gael ei gyflwyno, dylid ei drafod cyn gynted ag y bo modd. Dywedodd William Graham fod ei blaid ef am weld dadl a fyddai'n trafod y rhesymau dros yr oedi cyn ymateb i'r cynnig. Atebodd y Trefnydd ei fod yn fodlon cymryd y cynnig yn ystod busnes dydd Iau neu hyd yn oed y diwrnod hwnnw petai hynny'n bodloni pawb.

3.4 Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i'r Trefnydd drefnu dadl fer. Dywedodd y byddai'n gwahodd Grwp Adolygu Gweithdrefnau'r Cynulliad i ystyried gweithdrefn. Dywedodd Paul Silk fod Rheol Sefydlog 22.29 yn anghyson â gofynion adran 67(3) y Ddeddf. **GWEITHREDU: Ysgrifenyddiaeth y Siambr i baratoi papur drafft.**

## 4. Is-ddeddfwriaeth

4.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papurau BC222-01 i BC231-01 yn rhoi cyngor gan Weinidogion y Cynulliad ynghylch ymdrin â deg eitem o is-ddeddfwriaeth ddrafft

**Is-ddeddfwriaeth y mae'n rhaid ei gwneud o dan Reol Sefydlog 23**

4.2 Cyflwynwyd y ddwy set o reoliadau a ganlyn o dan Reol Sefydlog 23, Adran 3, sy'n nodi y caiff is-ddeddfwriaeth ei gwneud (naill ai ar y cyd neu beidio), gyda Gweinidog neu Adran yn Llywodraeth y DU, Gweithrediaeth yr Alban neu Weithrediaeth Gogledd Iwerddon.

- Rheoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Uchaf y Gweddillion mewn Cnydau, Bwyd a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2001 (BC230-01)
- Rheoliadau Cynhyrchion Amddiffyn Planhigion (Diwygio) (Rhif 2) 2001 (BC231-01)

4.3 Gofynnodd y Dirprwy Lywydd pam nad oedd y rheoliadau hyn wedi'u rhoi ar y fewnrwyd ac a oedd yr aelodau'n gwybod amdanynt. Dywedodd Nerys Arch nad yw'n ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog rhoi gorchmynion Rh.S. 23 ar y fewnrwyd. Cytunodd Marion Stapleton i holi a fyddai modd rhoi'r

rheoliadau ar y fewnrwyd yn ôl yr un amserlen â gorchmynion eraill.
**Gweithredu: Marion Stapleton / Nerys Arch**

4.4 Dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r argymhelliad y dylai'r Cynulliad ystyried y ddau orchymyn o dan y weithdrefn gyflymach.

**Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 (BC229-01)**

4.5 Dywedodd Marion Stapleton fod papur wedi'i anfon at aelodau'r Pwyllgor oddi wrth y Trefnydd yn nodi'r cynigion diwygiedig ar gyfer ymdrin â Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 (BC229-01). Roedd y papur am ddatgymhwyso rheolau sefydlog 22.1 a 22.5 a rheol sefydlog 22.27(i) a (ii). Esboniodd fod y Cabinet wedi bod yn awyddus i ymateb yn bositif i gais gan y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i newid y rheoliadau i gynnwys paragraff ychwanegol yn ymwneud â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd ymateb sylweddol gan y DU i'r cais hwnnw hyd ddydd Iau'r wythnos diwethaf ac roedd y rheoliadau eisoes wedi'u rhoi ar y fewnrwyd. Byddai rhoi'r rheoliadau drafft diwygiedig ar y fewnrwyd a'u hailgyflwyno i'r Pwyllgor Busnes yn golygu na fyddai modd cadw at y dyddiad a bennwyd ar gyfer dod â'r rheoliadau i rym. Derbyniodd y Pwyllgor Busnes y weithdrefn arfaethedig a nododd y byddai'r rheoliadau'n dal i gael eu trafod ar 19 Gorffennaf. Cytunodd Marion Stapleton i gylchredeg y paragraff ychwanegol i'r aelodau yn y cyfamser. **Gweithredu: Marion Stapleton.**

4.6 Derbyniodd y Dirprwy Lywydd fod achos cryf dros gytuno ar y cynnig arbennig hwn gan fod y pwyllgor pwnc eisoes wedi ystyried y rheoliadau drafft a bod y trefniadau diwygiedig yn adlewyrchu barn y Pwyllgor. Dywedodd ei bod yn anffodus ei bod wedi cymryd cyhyd i Lywodraeth y DU ymateb. Cytunodd y Pwyllgor Busnes felly i beidio ag ystyried Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 (BC229-01).

**Is-ddeddfwriaeth Arall a Gyflwynwyd  o dan Reol Sefydlog 22.**

4.7 Wrth ystyried y gorchmynion oedd yn weddill, dywedodd aelodau'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynigion i beidio ag anfon y gorchmynion drafft a ganlyn at y pwyllgorau pwnc a chytunwyd y dylent ddilyn y weithdrefn a argymhellwyd. **Dyfarnodd y Dirprwy Lywydd felly nad oedd angen cyfeirio'r saith gorchymyn a ganlyn at bwyllgor pwnc:**

- Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2001 (BC222-01)  *Y Weithdrefn Safonol*

- Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2001 (BC222-01)  *Y Weithdrefn Safonol*

- Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001 (BC224-01) *Y Weithdrefn Gyflymach*

- Rheoliadau Gweithfeydd Stryd (Ffioedd Archwilio) (Diwygio) (Cymru) 2001 (BC225-01) *Y Weithdrefn Gyflymach*

- Rheoliadau Plant (Eu Hamddiffyn rhag Tramgwyddwyr) (Diwygio) (Cymru) 2001 (BC226-01) *Y Weithdrefn Safonol*

- Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2001 (BC227-01) *Y Weithdrefn Safonol*

- Gorchymyn Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 (Cychwyn) 2001 (BC228-01) *Y Weithdrefn Safonol*

5. **<u>Cyngor i'r Cynulliad ynghylch gweithdrefnau</u>**

Dim

**<u>6. Pwyllgorau</u>**

Dim

**<u>7. Busnes ar y gweill</u>**

**Busnes yr wythnos hon (BC232-01)**

7.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur BC232-01 a oedd yn rhoi manylion y busnes y cytunwyd arno ar gyfer y Cynulliad yr wythnos honno.

7.2 Dywedodd y Trefnydd y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud datganiad ar Araith y Frenhines yn y cyfarfod llawn y diwrnod hwnnw a bod awr wedi'i neilltuo at hynny. Dywedodd y gellid neilltuo rhagor o amser petai'r rheolwyr busnes yn dymuno hynny. Dywedodd y byddai Jane Davidson (y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes) yn gwneud datganiad ynghylch Caledi Myfyrwyr ac y byddai Edwina Hart (y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau) yn gwneud datganiad drannoeth ar "Rhoi Cymunedau'n Gyntaf". Dywedodd wrth y Pwyllgor y byddai dau ddatganiad ddydd Iau 28 Mehefin ynghylch y Fagloriaeth Gymreig ac Ariannu'r Cytundeb Partneriaeth. Awgrymodd y Dirprwy Lywydd y byddai amser felly'n dynn yn y cyfarfod ddydd Iau a gofynnodd i'r Gweinidog gofio hynny.

**Datganiad busnes drafft (BC234-01)**

7.3 Dywedodd y Trefnydd nad oedd y datganiad busnes drafft a amlinellwyd yn BC234-01 wedi newid.

7.4 Dywedodd y Dirprwy Lywydd na fyddai modd i'r Ysgrifennydd Gwladol fynychu dadl ar Araith y Frenhines ar 12 Gorffennaf gan fod ganddo ymrwymiadau Cabinet. Gofynnodd a fyddai modd meddwl yn ofalus wrth drefnu'r dadleuon hyn yn y dyfodol gan ei fod yn credu yr hoffai'r Aelodau i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cyfle i gymryd rhan.

7.5 Pwysleisiodd y Trefnydd fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cynnig trafod cynnwys Araith y Frenhines yn fanwl â'r pwyllgorau pwnc. Fodd bynnag, dywedodd nad oedd y pwyllgorau pwnc wedi manteisio'n llawn ar gyfleoedd o'r fath yn y gorffennol. Croesawodd William Graham y cynnig a phwysleisiodd y dylid mynd ati i annog yr Ysgrifennydd Gwladol i fynychu cyfarfodydd y Cynulliad yn amlach.

7.6 Dywedodd Peter Black y byddai'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried fersiwn ddrafft o Fesur NHS Cymru yn yr hydref. Dywedodd Jocelyn Davies nad yw'r pwyllgorau pwnc yn gymwys ar hyn o bryd i ystyried deddfwriaeth ddrafft a gofynnodd beth y gellid ei wneud i sicrhau eu bod yn cymryd rhan yn y broses yn fwy effeithiol. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai'n codi'r mater gyda Phanel y Cadeiryddion. Dywedodd y byddai Grwp Adolygu Gweithdrefnau'r Cynulliad hefyd yn edrych ar hyn ac roedd yn gobeithio y byddai modd iddynt ystyried sut y gellid rhoi gwybod i'r Cynulliad am ystyriaethau Llywodraeth y DU a'r cynigion yr oedd yn debygol o'u gwneud cyn cyhoeddi unrhyw Fesurau Cymreig. Byddai gan y Cynulliad ddiddordeb hefyd mewn adrannau o Fesurau eraill sy'n berthnasol i Gymru a byddai'n dda ganddo gael gwybod ymlaen llaw am unrhyw gamau eraill hefyd.

**Gweithredu: Y Dirprwy Lywydd**

## 8. Materion a gyfeiriwyd o'r cyfarfod llawn

Dim

## 9. Diwygio'r Rheolau Sefydlog

### Adroddiad y Pwyllgor Busnes ar ddiwygio'r Rheolau Sefydlog (BC233-01)

9.1 Atgoffodd y Dirprwy Lywydd yr aelodau eu bod eisoes wedi ystyried cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 3.1 a 3.2, ac wedi cytuno ar y cynnig hwnnw. Cytunodd y Pwyllgor ar yr Adroddiad a'r cynnig a fyddai'n rhoi'r newidiadau ar waith a nododd ei fod am iddo gael ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno.

### Diwygiad arfaethedig i Reol Sefydlog 23, Adran 3 (BC235-01)

9.2 Ystyriodd y Pwyllgor y papur a gyflwynwyd gan y Trefnydd i geisio ymestyn y ddarpariaeth i ddefnyddio'r weithdrefn weithredol ar gyfer is-ddeddfwriaeth a wneir o dan yr adran hon, a chytunwyd ar y papur hwnnw.

## 10. Dyfarniadau'r Llywydd

Dim

## 11. Unrhyw fater arall

Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod wedi derbyn llythyr oddi wrth y Prif Weinidog ynghylch aelodaeth y pwyllgor Materion Ewropeaidd. Mae'r llythyr yn sôn bod angen gwell cyfathrebu rhwng y Pwyllgor hwnnw a'r pwyllgorau pwnc ac yn awgrymu y dylid sefydlu system adrodd ffurfiol. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai'n anfon copi o'r llythyr at aelodau'r pwyllgor ac yn ei roi ar agenda'r cyfarfod yr wythnos nesaf.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**